

'Hyfforddiant Trallwysio Gwaed'; cyrsiau eDdysgu yng Nghymru

Essential Transfusion Practice Ar gyfer staff gofal iechyd sy'n gweithio ar unrhyw gam yn y broses drallwysio gyda chleifion (oedolion, babanod newydd-anedig, babanod a phlant) a allai fod angen trallwysiad gwaed. Yn amlinellu'r camau allweddol sydd ynghlwm, ar hyd y daith o'r penderfyniad a rennir i drallwysio, samplu, casglu, gweinyddu, a nodi'r adweithiau a'r gofynion ar ôl trallwysio. Yn cynnwys rheolau cydnawsedd sylfaenol a'r gwahaniaethau hanfodol rhwng cydrannau.

Blood Components Ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gwneud y penderfyniad i drallwysio a chwblhau'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer trallwysio gwaed, ond sydd hefyd yn berthnasol i staff gofal iechyd sy'n gofalu am gleifion sy'n derbyn trallwysiad. Yn trafod cydrannau sydd ar gael yn rheolaidd, egwyddorion eu cydnawsedd, eu cymhwysiad clinigol ac arwyddion i'w defnyddio. Argymhellir cwblhau'r cwrs Arferion Trallwysio Hanfodol yn gyntaf.

Consent Ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gwneud y penderfyniad i drallwysio a chwblhau'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer trallwysio gwaed, ond mae hefyd yn berthnasol i staff gofal iechyd sy'n gofalu am gleifion sy'n derbyn trallwysiad. Mae'n dangos pwysigrwydd cydsynio, a'ch rôl mewn cefnogi gwneud penderfyniadau a rennir gyda'ch claf, gan sicrhau bod unrhyw gydsynio, neu wrthodiad, ar sail gwybodaeth ac yn ddilys. Yn rhoi trosolwg o egwyddorion cydsynio cyffredinol, a manylion penodol sy'n ymwneud â thrallwysiad.

Transfusion Reactions Ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am adnabod a rheoli adweithiau trallwysio, ond mae hefyd yn berthnasol i staff gofal iechyd sy'n gofalu am gleifion sy'n derbyn trallwysiad. Yn dangos pwysigrwydd arsylwi cleifion, adnabod arwyddion a symptomau, a rheoli adweithiau priodol. Yn edrych ar wahanol fathau o adweithiau, pam maen nhw'n digwydd, a phryd i'w hadrodd. Argymhellir cwblhau'r cyrsiau Arferion Trallwysio Hanfodol, Cydrannau Gwaed a Chydsynio hefyd.

An Introduction to Transfusion Laboratory Practice Ar gyfer Gwyddonwyr Biofeddygol dan hyfforddiant, Gwyddonwyr Biofeddygol newydd gymhwyso, a Gwyddonwyr Biofeddygol aml-ddisgyblaeth sy'n newydd i'r ddisgyblaeth Trallwysio Gwaed. Y prif ffocws yw diogelwch cleifion, a rhoi gwybodaeth sylfaenol i staff am Arferion Labordy Trallwysio Gwaed.

Good Manufacturing Practice Ar gyfer staff labordy a rolau eraill sy'n ymwneud â'r llwybr trallwysio, hyd at ryddhau cydrannau o'r labordy. Wedi'i fwriadu i'ch helpu i gael dealltwriaeth o Arferion Gweithgynhyrchu Da mewn perthynas â thrallwysio gwaed. Yn cynnwys gofynion cyfreithiol labordai trallwysio ysbytai i sefydlu a chynnal system ansawdd yn seiliedig ar Arferion Gweithgynhyrchu Da.

Use of Anti-D Immunoglobulin in Pregnancy Ar gyfer bydwragedd, obstetregwyr, nyrsys sy'n gweithio ym maes gofal mamolaeth, a gwyddonwyr biofeddygol sy'n gweithio mewn labordai trallwysio, ond mae hefyd yn berthnasol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gweithio mewn unrhyw faes lle gellir gweinyddu imiwnoglobwlin gwrth-D. Mae'n dangos pam a phryd y bydd angen imiwnoglobwlin gwrth-D yn ystod beichiogrwydd, ac ar ôl cael babi, gan gynnwys dosio a gweinyddu. Yn amlinellu'r monitro/sgrinio labordy sydd ei angen ar gyfer menywod D negatif, y broses ar gyfer penderfynu ar deip D y ffetws, a phrofion ôl-esgor ar gyfer babanod newydd-anedig. Mae hefyd yn cwmpasu'r gofal sydd ei angen os oes gan fenyw feichiog imiwnedd i wrthgyrff gwrth-D, ar y cyd ag ystyriaethau arbennig eraill.

Cell Salvage Yn helpu i ddeall arbed celloedd a dysgu am dechnegau cadw gwaed. Yn egluro egwyddorion arbed celloedd, pryd i'w ddefnyddio a'r broses ar gyfer eu casglu, prosesu ac ail-drwytho (gan gynnwys cydsynio, rhagnodi ac arsylwi). Mae'n cwmpasu pwysigrwydd dogfennaeth, llywodraethu a chadw gwaed hefyd.

SHOT Ar gyfer staff gofal iechyd sy'n gweithio ar unrhyw gam yn y broses drallwyso gyda chleifion (oedolion, babanod newydd-anedig, babanod a phlant) a allai fod angen trallwysiad gwaed. Mae'n cynnwys tri fideo byr (~ 5 munud yr un) sy'n darparu trosolwg o haemowlyadwriaeth yn y DU, gan adrodd i'r cynllun Peryglon Difrifol o ran Trallwyso (SHOT), a dysgu oddi wrth SHOT.

GIG Cymru: Rheoli Dysgu: ESR

Mae'r cyrsiau eddysgu i gyd yn hygyrch ar ESR, ac wedi'u teitlu fel y manylir yn y tabl isod.


Mae gan y cyrsiau ardystiad dysgu cysylltiedig ar y system ESR sy'n ddilys am 2 flynedd (ac eithrio *000 NHS Wales Blood Transfusion Training 06: Good Manufacturing Practice* sy'n ddilys am flwyddyn) a chymhwysedd ESR cysylltiedig.

Enw'r Cwrs	Ardystiad Dysgu	Cymhwysedd
000 Blood Transfusion 01: Essential Transfusion Practice	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 01: Essential Transfusion Practice	NHS MAND Blood Transfusion - 2 Years
000 Blood Transfusion 02: Blood Components	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 02: Blood Components	NHS MAND Blood Transfusion - 2 Years
000 Blood Transfusion 03: Consent	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 03: Consent	NHS MAND Blood Transfusion - 2 Years
000 Blood Transfusion 04: Transfusion Reactions	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 04: Transfusion Reactions	NHS MAND Blood Transfusion - 2 Years
000 Blood Transfusion 05: An Introduction to Transfusion Laboratory Practice	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 05: Intro. to Transfusion Lab. Practice	NHS MAND Blood Transfusion - 2 Years
000 Blood Transfusion 06: Good Manufacturing Practice	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 06: Good Manufacturing Practice	NHS MAND Blood Transfusion - 1 Year
000 Blood Transfusion 07: Use of Anti-D Immunoglobulin in Pregnancy	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 07: Use of Anti-D in Pregnancy	NHS MAND Blood Transfusion - 2 Years
000 Blood Transfusion 08: Cell Salvage	000 NHS Wales Blood Transfusion Training 08: Cell Salvage	NHS MAND Blood Transfusion - 2 Years
000 Blood Transfusion 09: SHOT	-	-

Learning@Wales

Mae'n bosibl y bydd dysgwyr sy'n methu cael mynediad i system ESR GIG Cymru yn gallu cofrestru i Learning@Wales (<https://learning.nhs.wales/>) a chwblhau'r cyrsiau.


Mewngofnodwch i Learning@Wales, a cliciwch ar 'Cyrsiau' o'r hafan.



Ar y dudalen nesaf, yn y bar chwilio, teipiwch 'trallwysu gwaed':



Cliciwch ar 'Trallwysu Gwaed' o'r canlyniadau'r chwilio:



Ar y dudalen nesaf, mae'r cyrsiau wedi'u rhestru fel a ganlyn (Saesneg yn unig):

Blood Transfusion Programme: Essential Transfusion Practice

Blood Transfusion Programme: Blood Components

Blood Transfusion Programme: Consent

Blood Transfusion Programme: Transfusion Reactions

Blood Transfusion Programme: An Introduction to Transfusion Laboratory Practice

Blood Transfusion Programme: Good Manufacturing Practice

Blood Transfusion Programme: Use of Anti-D Immunoglobulin in Pregnancy

Blood Transfusion Programme: Cell Salvage

Blood Transfusion Programme: SHOT